

# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fercher, Medi 8fed 2020 drwy gyfrwng Zoom oherwydd cyfyngiadau argyfwng Covid-19. Yn bresennol oedd Geraint Jones (cadeirydd), Gwynedd Jones, Jean Roberts, Arwel Davies, Rhys Richards, Gwynfryn Williams, Huw Charles, Geraint Davies a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Euros Puw a'r Cyng. Elwyn Edwards.

## **i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin a chafwyd yn gywir.**

### **ii) Datgan Buddiant.**

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

### **iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

#### **a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-**

- i) Parciau chwarae Rhyduchaf a Parc – cafwyd cadarnhad fod y glaswellt wedi cael ei dorri erbyn hyn.
- ii) Cais am fin baw cŵn i bentref Parc - cafwyd cynnig i adleoli'r bin presennol tu allan i fynediad y cae chware a rhoi bin amlwrpas yn ei le. Cytunwyd y byddai hyn yn bwrpasol iawn.
- iii) Nifer o gamfeydd ar y llwybrau cyhoeddus o gwmpas ardal Parc angen eu trwsio - cafwyd cadarnhad y byddai swyddog y Parc Cenedlaethol yn ymgynghori gyda swyddog lwybrau Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r camfeydd. Cafwyd cadarnhad hefyd y byddai'n dilyn y gwyn am y llwybr troed o ffridd ben Fondro i Stadros, Parc.
- iv) Y ffordd ger Ty'n y Cae yn anwastad iawn ac angen sylw - roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi gosod arwyddion 'uneven road' ac wedi cael gair gyda swyddog Dwr Cymru ynglŷn â'r gwaith.

### **iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

#### **a) Amrywiol.**

- i) Dwr Cymru – datganiad yn ein cynghori o'i bwriad i wneud gwaith i warchod Capel Coffa Celyn.
- ii) Cyngor Cymuned Llanllyfni - cais am gefnogaeth i'r syniad o godi tal am fynediad i'r Wyddfa. Cytunwyd i ddatgan cefnogaeth y Cyngor.
- iii) Cyfoeth Naturiol Cymru - gwahoddiad i lansiad ar-lein prosiect LIFE Afon Dyfrdwy CNC.
- iv) Cyfoeth Naturiol Cymru – cynllun adnoddau coedwigoedd Llanfor a Celyn.
- v) Swyddfa Bost Rhyduchaf – llythyr yn ein cynghori nad oeddynt wedi gallu cael cynnig safle addas i ail leoli'r gwasanaeth yn Rhyduchaf.
- vi) Ymgynghoriad Ffonau Talu Cyhoeddus - derbyniwyd llythyr yn ein cynghori fod BT yn bwriadu cael gwared â'r ffon yn Arenig. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd yn unfrydol i wrthwynebu hyn gan fod y signal ffon symudol yn wan iawn yn yr ardal a byddai'r angen y cysylltiad ffon yma mewn argyfwng.
- vii) Llywodraeth Cymru - llythyr yn ein cynghori o'r gwaith cryfhau arglawdd ar yr A494 yn Llanycil.
- viii) Cyngor Tref Y Bala – cais i gydweithio gyda'r Cyngor Cymuned i bwysu am gyfyngiad cyflymder o 40mya yn Llanycil. Cytunwyd yn unfrydol i gydweithio gyda'r Cyngor Tref.

### **v) Ceisiadau Cynllunio.**

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w trafod.

### **vi) Materion Ariannol**

#### **a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)**

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

b) Praesept.

Derbyniwyd ail randal y Praesept o £4,500.

c) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd cais ariannol gan Marie Curie. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i'r cleric basio'r materion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

i) Cyffordd Parc yn Werngoch - yn dilyn damwain yn ddiweddar cytunwyd i ofyn a oedd posib cael unrhyw arwyddion ychwanegol i rybuddio gyrwyr am y gyffordd.

ii) Ffosydd angen ei agor o dan bungalow Trem Nodol, Llidiardau a hefyd ar hyd ffordd Pentre Duldog, Rhyduchaf.

iii) Cones ar y ffordd ger Ty'n Ffordd Rhyduchaf - yn dilyn ein hymholiadau blaenorol ynglŷn â thrwsio'r ffordd roedd y safle dal yr un fath. Mynegwyd pryder fod y gwaith heb gael ei wneud a'r anawsterau a oedd yn creu. Cytunwyd i gysylltu eto i bwysleisio bod angen gwneud y gwaith mor fuan â phosib ac os oedd posib cael arwyddion ychwanegol i hysbysu gyrwyr fod y ffordd yn culhau ac yr angen i arafu lawr.

iv) Maes y Dail, Celyn - nifer o geir sy'n gysylltiedig â'r annedd yn parcio ar ochr y ffordd ger y fynedfa ac yn gwneud llanast.

v) Ffos wedi rhoi ger giât Ty'n Rhos, Parc ac wedi creu pant yn y ffordd.

vi) Coed y gwyro i'r ffordd a peryg iddynt ddisgyn ar y lein ffon gerllaw ar riw Llanycil. Nodwyd fod y cynghorwyr wedi gweld gweithlu Cyngor Gwynedd yno dros y dyddiau diwethaf.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Hydref  
13eg am 8.00 y.h. drwy gyfrwng “Zoom”.**